

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol

18 Hydref 2019

Annwyl Jeremy,

Gwnaethom ystyried Gorchymyn Rheilffyrdd Caerdydd a'r Cymoedd (Trosglwyddo) 2019 (y Gorchymyn) yn ein cyfarfod ar 16 Medi 2019. Yn dilyn hynny, gwnaethom adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y Gorchymyn ar 17 Medi 2019.

O dan Reol Sefydlog 21.7(v), gwnaethom adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y pwynt a ganlyn:

"Mae Atodlen 1 i'r Gorchymyn yn cyfeirio at amrywiol ddeddfiadau nad ydynt ar gael yn hawdd ar-lein. Rydym wedi cael trafferth dod o hyd i'r rhain gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd, ac adnoddau y mae angen tanysgrifio iddynt (LexisNexis a Westlaw). Mae'n ymddangos y gellir cadw rhai deddfiadau yn Archifau Cenedlaethol Kew, ond mae'n anodd cadarnhau hyn gan fod y dogfennau a gedwir yn cael eu disgrifio mewn termau cyffredinol. Mae pryder o ran hygyrchedd y gyfraith, sydd wedi cyfyngu ar ein gallu i graffu'n llawn ar y Gorchymyn."

Nododd ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt hwn:

"Mae'r llywodraeth yn nodi mater hygyrchedd. Fodd bynnag, drafftwyd y Gorchymyn yn y ffordd hon oherwydd natur awdurdodiad y rheilffyrdd perthnasol, a'r angen i gyfeirio at y Deddfau unigol i ganiatáu trosglwyddo'r rheilffyrdd a awdurdodir gan y Deddfau hynny. Mae hyn yn sicrhau y cwmpesir pob elfen o'r rheilffyrdd dan sylw.

Fel rydych wedi nodi, cedwir y ddeddfwriaeth yn yr Archifau Gwladol, ac mae ar gael ar gais drwy dalu ffi. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd ar gael yn llawn ar y gronfa ddata JustisOne, sef gwasanaeth sydd ar gael drwy danysgrifiad. Rydym yn cael ar ddeall ar sail gohebiaeth ddiweddar bod gan y Cynulliad fynediad i'r gronfa ddata hon."



Yng ngoleuni eich gwaith yn ceisio gwella hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru, rydym am dynnu eich sylw at y Gorchymyn penodol hwn.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English

